

Croeso!

Yn y rhifyn yma mi fyddwn yn edrych nôl dros rasio mis Mai gan gynnwys y cyfarfod cyntaf yn Nhregaron. Mi fyddwn hefyd yn dysgu mwy am enillydd y Ddraig Hyn Gymreig - Baby Rosa.

Beth sy' wedi bod yn digwydd?

Agorwyd tymor rasio 2013 ar Mai 5 yn Nhregaron. Tair ras ar ddeg ar ein cyfer, cafwyd rasio da a sawl diweddglo agos a chyffroes. Braff oedd clywed hefyd fod y nifer o bobl a fynychodd y rasys yn uwch na nifer 2012. Fe ddaeth Ceredrotian yng nghyd a chwmni teithio lleol, i drefnu diwrnod allan yn rasys Tregaron I



griw o fyfyrwyr o brifysgol Aberystwyth. Dyma'r tro cyntaf i'r un ohonynt weld rasio harnais ac mi roeddent wedi eu plesio yn fawr. Mi fydd Ceredrotian yn trefnu teithiau tebyg i

eraill i weddill rasys Ceredrotian yn ystod yr haf.

Rasys Tregaron oedd y cyfle cyntaf i hawlio pwyntiau go gyfer a phencampwriaethau Ceredrotian 2013. Wedi ei fuddugoliaeth yn y rhagras a ffeinal Tregaron, Infinitey sydd yn arwain pencampwriaeth y ceffylau, a'i berchennog, Mrs M Jones a Ray Cooper sydd yn gyfartal ar frig pencampwriaeth y perchnogion. Mae Alexis Laidler wedi cael dechreuad da i adennill pencampwriaeth yr hyfforddwr. William Laidler, gwr Alexis sydd ar frig tabl y gyrwyr. Tra bod Rhys Evans ymhell ymlaen ym mhencampwriaeth y Gyrwyr Ifanc. Mi fydd y pwyntiau nesa i'w ennill yn rasys Tanycastell ar Awst 4 yn Aberystwyth.



Ar yr 18 a 19 Mai, fe aeth stonidin Ceredrotian i'r Wyl Wanwyn ar faes y sioe yn Llanellwedd. Cyfle I gyflwyno rasio harnais i gynulleidfa newydd a'u hannog i ymweld â rasys harnais. Heb os, y prif atyniad oedd y ceffyl fibreglass, yn ei harnais ac yn y gert -

mi roedd yn tynnu sylw pawb. Roedd y plant yn ysu i gael eu cyfle i eistedd yn y gert a chymryd yr awenau. Mi gafodd y plant cyfle hefyd i gynllunio lliwiau rasio newydd I Dylan y Drifer, mi gawsom ni nifer fawr o geisiadau - rhai da iawn a rhai lliwgar tu hwnt! Ac mi roedd 'na gyfle i unrhyw un oedd yn ymweld â'r stonidin i ennill 2 docyn i un o rasys Ceredrotian. Enillydd lwcus y gystadleuaeth oedd Pauline Griffiths o Sir Benfro. Llongyfarchiadau I Pauline Griffiths.

Mi fydd y stonidin yn ymweld â Sioe Aberystwyth ar Fehefin 8fed ac wedyn Yr Wyl Wledig yn Nant y Ci, Caerfyrddin ar y 15 a 16 Mehefin. Galwch heibio os i chi yno!



Hydref 2011. Mi roedd y Black Book wedi cyrraedd a'r tudalennau wedi eu hastudio, pob fideo wedi eu gwyllo, y fagwraeth wedi eu hasesu a rhestr fer wedi ei greu. Roedd Gwenan Thomas ar ei ffordd i Harrisburg, nid yn unig i brynu caseg fagu iddi hi ei hun ond hefyd am eboles 2 flwydd i'w brawd Huw.

Wedi cyrraedd Harrisburg, roedd y gwaith ar waith. Mae yna gryn wahaniaeth rhwng beth sydd yn atyniadol ar bapur a beth sydd yn dderbyniol yn y cawd. Wedi edrych ar yr ebolesau ar y rhestr fer mi gafodd pop un eu diystyru ar sail cyffurfiad annerbyniol neu nam are u coesau. Wrth aros i weld yr eboles ddiwethaf ar y rhestr, drwy gornel ei llygaid fe ddaliodd ceffyl arall sylw Gwenan. O fewn dim roedd Gwenan wedi mynd i weld yr eboles yma, a sylweddoli er nad oedd hon ar restr Huw, mi oedd hi yn un oedd wedi cael ei thrafod nôl yn Nhregaron, ond wedi ei diystyri oherwydd yr arian oedd hi wedi eisoes wedi ennill yn yr Amerig.

Ond roedd yr eboles yn gwarantu sylw bellach. Yn gorfforol roedd yr eboles yn plesio, hyd da, ysgwydd dda a choeau 'glan'. Mi roedd ganddi lygad bras hyfryd ac yn hamddenol wrth gael ei archwilio. Roedd yn fagwraeth yn dda ac yn addas go gyfer a symud ymlaen i fod yn gaseg fagu wedi ei diwrnodau rasio. Fe aeth Gwenan i ffonio ei brawd ag egluro'r sefyllfa, dim un o'r rhai ar y rhestr yn plesio ond roedd un arall oedd werth ystyried.



Fe ddaeth yr eboles i gyloch yr arwerthiant, ac fe wnaethpwyd y penderfyniad i fynd amdani a Gwenan cafodd y gair olaf wrth i'r mwrthwl yn cael ei daro lawr, ac am eiliad sydyn cafodd Gwenan y teimlad 'gobeithio fy mod wedi gwneud y peth iawn!'. Ond wrth i Gwenan wylio'r eboles yn cerdded nôl am ei stabl roedd hi'n hollol argyhoeddedig os fyddai Huw yno mi fyddai Huw wedi ei phrynu. Mi fu Huw a Gwenan yn ffodus iawn i wario cryn dipyn o amser yng nghwmni eu tad efo'r ceffylau, ac mi roedd eu tad yn ddyn ceffylau gyda llygad arbennig am geffyl. Felly fel canlyniad, mae'n debyg bod y ddau yn chwilio am yr un priodolddau mewn ceffyl. Mae'r profiad o brynu ceffyl ar ran rhywun arall yn medru bod yn frawychus ond mae prynu ceffyl i rywun sydd o'r un meddylfryd yn gwneud y job tipyn haws.

Mi roedd Huw wedi bod yn gwyllo'r arwerthiant yn fyw dros y we ac er ei fod yn gwybod fod yr eboles wedi ei gwerthu, nid oedd yn gwybod pwy oedd wedi ei phrynu. Ond ar ôl galwad ffôn trawsatlantig, fe ddysgodd Huw taw fe oedd perchennog newydd Baby Rosa.

Camu ymlaen I Awst 2012, rasyd Tregaron wedi gorfod symud i Ddyffryn Aman a Baby Rosa yn rhoi'r fuddugoliaeth fawr gyntaf i Rhys Evans yn beth oedd yn mynd i fod yn benwythnos mawr i gofio. Mi roedd ennill ras y Ddreiges Fach Gymreig yn un o'r prif amcanion i Baby Rosa, braf oedd cael cyflawni'r gamp - mi roedd hefyd yn rhyddhad anferthol i Gwenan. Ar ôl y Ddreiges fe aeth Rosa ymlaen i Dlr Prins - dim ond 4 oedd yn y ras, ond hi oedd yr unig eboles a'r 3 arall oedd y 3 ebol gorau yn y wlad. Gorfod I Rosa frwydro

yn galed, ond hi ddaeth i'r brig a rhoi buddugoliaeth rhif 5 i Huw a Rhys. Ond mae'r busnes rasio yma yn medru bod 'lan a lawr', ac yn anffodus mi ddaeth yna 'lawr' wrth i Rosa fynd i'r Derby yn Efrog. Mewn ras dactegol ac araf, fe aeth Rosa yn gryf a gorfodwyd I Rhys I'w

Newyddion Sydyn

thynnu i fyny gyda ½ milltir i fynd. Dyna oedd diwedd tymor 2012, gyda 8 ras yn 2012, 5 buddugoliaeth, un ail safle a disafle 2 waith. Dechreuad da i'w gyrfa yn y DU.

Yn Mai 2013, fe ddaeth Baby Rosa allan i rasio yn y Ddraig Hyn Gymreig ac ail gydio yn y busnes o ennill. Pump o geffylau yn y ras, bu Rosa yn ffodus i dynnu rhif 2 ar y gât gyda Cloudburst rhif 5. Mi roedd y tactegau yn syml, cymryd llawn mantais o'i chyflymdra o'r gât ac arwain yn gynnar. Wrth iddynt fynd heibio'r ½ milltir fe arafodd y ras, a Cloudburst yn cael y cyfle i ddod o'r cefn a lan wrth ei ochr. Erbyn y ¼ milltir, ond 3 ceffyl oedd ynddi, Rosa, Cloudburst a Oakview George. Wrth droi am adre, fe ddaeth Oakview George allan i herio, cael a chael oedd hi, ond unwaith eto fe frwydrodd Baby Rosa yn ffyrnig a chadw'r blaen dros y llinell derfyn. Yr eboles gyntaf i ennill yn Ddraig Hyn Gymreig. A beth am weddill y tymor, Efrog fydd nesa i'r Pencampwriaethau ar 29 Mehefin. Wedyn mae'n debyg taw anelu am rasys i'r cesig fydd ei chynllun yn cynnwys ras STAGBI i'r cesig yn Nhir Prins. Buddsoddiad da!

- Mae hanes Gŵyl Trotian Tregaron wedi ei gynnwys yng nghylchgrawn TROT, ewch i'r wefan i'w ddarllen <http://www.standardbredcanada.ca/trot/may-2013/something-celebrate.html>
- Mae'r croeslamwr o Seland Newydd, Stig a oedd yn destun stori flaenorol yn y cylch lythyr, wedi disgleirio unwaith eto wrth ennill y Cwpan Rowe werth \$150,000.
- Os i chi wedi cystadlu yn gystadleuaeth Wynnstay 10 i ddilyn, cofiwch fod y tabl yn cael ei ddiweddarau yn fisol. Gary Logan yw'r arweinydd cynnar, ond mae yna 4 cyfarfod i ennill pwyntiau ym mis Mehefin, felly cyfle i bopeth i newid.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government